

Cynllun y Cyngor

2022-2023

TASG
SYNIADAU
GWAITH TÎM
LLWYDDIANT
CYSWLLT
CYFLAWNIAD
YMDDIRIEDAETH
CYSWLLT
STRATEGAETH
SYNIADAU
BUSNES
YMDDIRIEDAETH
STRATEGAETH
EFFEITHIOL
POBL
RHEOLAETH
GRŴP
RHEOLAETH
GWAITH
CYMUNED
GYDA'N
GILYDD
GRŴP
GWAITH TÎM
BUSNES
LLWYDDIANT
GWAITH
BUSNES
TASG
POBL
SYNIADAU
STRATEGAETH
POBL
YMDDIRIEDAETH
TASG
LLWYDDIANT
CYSWLLT
GWAITH TÎM
EFFEITHIOL
GRŴP
YMDDIRIEDAETH
GWAITH
RHEOLAETH
GRŴP
SYNIADAU
POBL
TASG





cynnwys

Cynnwys

Croeso i Gynllun Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2022/23	05	Blaenoriaeth: Ynni Adnewyddadwy	32
Gosod ein Blaenoriaethau a Beirniadu ein Perfformiad	06	Blaenoriaeth: Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy	33
Blaenoriaethau 2022/23	08	Blaenoriaeth: Economi Gylchol	34
Dilyn y Cynllun - Canllaw Syml	11	Thema: Yr Economi	
Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu	12	Blaenoriaeth: Adfywio Canol Trefi	36
Gweithgareddau Rheoleiddio/Archwilio Eraill	13	Blaenoriaeth: Busnes	37
Sut mae Ymgynghoriad yn hysbysu ein Cynllun	13	Blaenoriaeth: Cysylltedd Trafnidiaeth	38
Cynllun y Cyngor, Rhan 1 a 'Rhan 2: Sut ydym ni'n mesur cyflawniad?'	13	Blaenoriaeth: Isadeiledd Digidol	39
Thema: Tlodi		Blaenoriaeth: Targedau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	40
Blaenoriaeth: Tlodi Incwm	15	Blaenoriaeth: Gwario arian er budd Sir y Fflint	41
Blaenoriaeth: Tlodi Plant	16	Blaenoriaeth: Lleihau Diweithdra	42
Blaenoriaeth: Tlodi Bwyd	18	Thema: Lles Personol a Chymunedol	
Blaenoriaeth: Tlodi Tanwydd	19	Blaenoriaeth: Byw'n Annibynnol	44
Blaenoriaeth: Tlodi Digidol	20	Blaenoriaeth: Diogelu	45
Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch		Blaenoriaeth: Darpariaeth Uniongyrchol i Gefnogi Pobl yn Agosach I'w Cartrefi	46
Blaenoriaeth: Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd	21	Blaenoriaeth: Strategaeth Dementia Lleol	47
Blaenoriaeth: Anghenion Tai a Dewisiadau Tai	22	Blaenoriaeth:	
Blaenoriaeth: Tai cymdeithasol	23	Amgylchedd Lleol Glân, Diogel gyda Chysylltiadau Da	48
Blaenoriaeth: Sector Rhentu Preifat	25	Thema: Addysg a Sgiliau	
Blaenoriaeth: Eiddo Gwag	26	Blaenoriaeth: Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgolt	50
Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd		Blaenoriaeth: Cyfleoedd Dysgu Digidol	51
Blaenoriaeth: Carbon Niwtral	27	Blaenoriaeth: Yr Amgylcheddau Dysgu	52
Blaenoriaeth: Newid Hinsawdd ac Ymaddasau	28	Blaenoriaeth: Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu	53
Blaenoriaeth: Strategaeth Fflyd	29	Blaenoriaeth: Darpariaeth Addysgol Arbenigol	54
Blaenoriaeth: Amgylchedd Gwyrdd	30	Blaenoriaeth: Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA)	55
Blaenoriaeth: Mynediad Gwyrdd	31	Blaenoriaeth: Les	56
		Datganiad o Gyfrifoldeb	58



croeso

Croeso i Gynllun Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2022/23



Neal Cockerton
Prif Weithredwr



Ian Roberts
Arweinydd
y Cyngor

Mae fersiwn diweddaraf Cynllun y Cyngor yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r pethau mawr rydym yn bwriadu eu cyflawni. Mae Sir y Fflint yn ymfalchio mewn bod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda ar ran ei gymunedau lleol, ac yn un sy'n cael ei arwain a'i gymell gan gyfres o werthoedd cymdeithasol cadarn.

Mae Sir y Fflint yn Gyngor blaengar sy'n cael ei lywodraethu'n dda. Rydym yn parhau i berfformio'n dda fel darparwr uniongyrchol a chomisiynydd gwasanaethau cyhoeddus ac fel partneriaid i eraill.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heb ei hail. Er gwaethaf yr holl ymyrraeth a achoswyd gan y pandemig, nid ydym wedi petruso i gynnal ein perfformiad uchel ac i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwella cymunedau Sir y Fflint.

Yng Nghynllun eleni, mae pwyslais mawr ar adfer o'r pandemig a chefnogi'r rhai mwyaf diamddiffyn. Rydym hefyd yn gwneud ymrwymadau mawr i fod yn Gyngor Gwyrdd. Mae bywyd yn ystod y pandemig wedi'n dysgu ni y dylem werthfawrogi'r amgylchedd naturiol ac y gall addasiadau yn ein ffyrdd o fyw leihau ein hól troed carbon ein hunain.

Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor o dan chwe thema:-

- Tlodi
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd
- Yr Economi
- Lles Personol a Chymunedol
- Addysg a Sgiliau

Mae gan bob thema amcanion a chamau gweithredu penodol lle rydym yn ceisio cael effaith eleni ac yn yr hirdymor.

Gosod ein Blaenoriaethau a Beirniadu ein Perfformiad

Y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol sy'n gosod y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel sir. Rydym yn cydweithio fel Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ac yn cyfuno ein hadnoddau er budd Sir y Fflint.

Wrth weithio yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â phartneriaid sector cyhoeddus lleol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wrth wraidd hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, gosod blaenoriaethau ar y cyd a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda'r nod cyffredinol o wella lles yn lleol.

Dyma flaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ar gyfer 2022/23:

- Diogelwch Cymunedol - Mae Pobl yn Ddiogel
- Byw'n Iach ac yn Annibynnol

Dewiswyd y blaenoriaethau hyn i gael sylw arbennig fel rhan o'n [Cynllun Lles](#) ac maent yn feysydd yr ydym ni'n credu y gallwn wneud gwahaniaeth mawr ynddynt wrth wella gwasanaethau a chanlyniadau i bobl leol / cymunedau Sir y Fflint drwy weithio gyda'n gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint "[Asesiad o Les yn Sir y Fflint](#)" ym mis Mai 2022, gan gyflawni ei ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi asesiad o les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd yr Asesiad yn hysbysu blaenoriaethau lles newydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a fydd yn rhan o'r Cynllun Lles lleol newydd. Bydd paratoi a chyhoeddi Cynllun Lles newydd yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn ystod 2022/23. Yn ogystal â llunio Adroddiad Blynyddol yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r blaenoriaethau lles cyfredol.

Er eu bod yn cadw eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar wahân, ym mis Mehefin 2020, ffurfiodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd, gan sylweddoli'r gwerth o rannu gwybodaeth ac adnoddau i fynd i'r afael â heriau cyffredin mewn perthynas â phandemig COVID-19. Bydd y trefniant hwn, sy'n canolbwyntio ar gydnerthu cymunedol, yn parhau yn 2022-23.

Mae'r Cyngor wedi gosod nifer o flaenoriaethau iddo ei hun fel sefydliad partner unigol hefyd. Mae gosod blaenoriaethau'n ein helpu i ganolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau ar y pethau pwysicaf - adleisir y blaenoriaethau hyn yng Nghynlluniau Busnes y Cyngor.

Wrth osod Blaenoriaethau'r Cyngor, mae'n rhaid i ni ystyried nifer o ffactorau o bolisiau Llywodraeth Cymru, i ddisgwyliadau ein partneriaid allweddol, i'n cyfrifoldebau cyfreithiol, i farn pobl leol.

Yna, byddwn yn gosod ein targedau, ac yn beirniadu ein perfformiad yn eu herbyn gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth feintiol (perfformiad a feirnedir yn ôl niferoedd) ac ansoddol (perfformiad a feirnedir yn ôl adborth, canlyniadau ymgynghoriad ac ati). Mae rhai o'n hamcanion yn ymwneud â chreu cynlluniau er mwyn cyflawni amcanion tymor hirach. Bydd y rhain yn cael eu datblygu o fewn y flwyddyn, ac yn cael eu hystyried fel rhan o raglenni gwaith i'r dyfodol ein Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac yn arwain ynddynt eu hunain at ymrwymïadau a chamau gweithredu tymor hirach.

I'n helpu i wybod pa mor dda rydym yn ei wneud o ran cwrdd â disgwyliadau ein blaenoriaethau, mae gennym gyfres o 'fesurau' sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gennym. Amlinellir y mesuryddion perfformiad hyn ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn fesul tudalen. Manylwyd yn llawnach arnynt yn y ddogfen ategol 'Cynllun y Cyngor Rhan 2: Sut ydym ni'n Mesur Cyflawniad? Disgrifir pob un o'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn yn unigol ar y tudalennau a ganlyn.

Rydym yn darparu gwybodaeth ynglŷn â:

- Ein Hamcanion Lles - Effaith / canlyniad hirdymor - pa wahaniaeth fyddan nhw'n eu gwneud
- Pam fod y flaenoriaeth yn bwysig yn 2022/23
- Y materion polisi cenedlaethol sy'n effeithio ar ddarpariaeth
- Beth fyddwn ni'n ei wneud
- Beth yw ystyr rhywfaint o'r iaith rydym yn ei defnyddio

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pa mor dda rydym wedi perfformio yn erbyn ein deilliannau mewn dwy ffordd: adroddiadau rheolaidd i Gabinet a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor; a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a ddylai gael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Blaenoriaethau 2022/23

Thema / Amcan Lles	Blaenoriaeth yn ystod y Flwyddyn	Rhif tudalen
Tlodi Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol	• Tlodi Incwm	15
	• Tlodi Plant	16
	• Tlodi Bwyd	18
	• Tlodi Tanwydd	19
	• Tlodi Digidol	20
	Tai Fforddiadwy a Hygyrch Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr a chefnogi cymunedau mwy diogel	• Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd
• Anghenion Tai a Dewisiadau Tai		22
• Tai Cymdeithasol		23
• Sector Rhentu Preifat		25
• Eiddo Gwag		26
Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hól-troed carbon eu hunain		• Carbon Niwtral
	• Newid Hinsawdd ac Ymaddasu	28
	• Strategaeth Fflyd	29
	• Amgylchedd Gwyrdd	30
	• Mynediad Gwyrdd	31
	• Ynni Adnewyddadwy	32
	• Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy	33
	• Economi Gylchol	34

Blaenoriaethau 2022/23

Thema / Amcan Lles	Blaenoriaeth yn ystod y Flwyddyn	Rhif tudalen
Yr Economi Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy a thwf	• Adfywio Canol Trefi	36
	• Busnes	37
	• Cysylltedd Trafnidiaeth	38
	• Isadeiledd digidol	39
	• Targedau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	40
	• Gwario arian er budd Sir y Fflint	41
	• Lleihau Diweithdra	42
Lles Personol a Chymunedol Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent	• Byw'n Annibynnol	44
	• Diogelu	45
	• Darpariaeth Uniongyrchol i Gefnogi Pobl yn Agosach i'w Cartrefi	46
	• Strategaeth Dementia Lleol	47
	• Amgylchedd Lleol Glân, Diogel gyda Chysylltiadau Da	48
Addysg a Sgiliau Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu	• Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol	50
	• Cyfleoedd Dysgu Digidol	51
	• Yr Amgylchedd Dysgu	52
	• Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu	53
	• Darpariaeth Addysgol Arbenigol	54
	• Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA)	55
	• Lles	56



Dilyn y Cynllun - Canllaw Syml

Mae'r dudalen flaenorol yn amlinellu chwe thema'r Cyngor a'r blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2022/23.

Amlinellir pob thema sefydlog gyda gwahanol liw. Er enghraifft, mae **Addysg a Sgiliau** yn las ac mae'r **Economi yn borffor**. Dylai'r codio lliw yma ei gwneud hi'n haws i'r darllenydd ddilyn y blaenoriaethau wrth fynd drwy'r ddogfen ac hefyd wrth groesgyfeirio at Gynllun y Cyngor Rhan 2: Sut ydym ni'n Mesur Cyflawniad?

Mae'r Cyngor wedi dewis nifer o flaenoriaethau fydd yn cael sylw arbennig yn ystod 2022/23. Mae adran benodol ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau hyn yn ddiweddarach yn y ddogfen.

Er enghraifft, ar dudalen 9 byddwch yn gweld y thema ar gyfer Tlodi. Diffinnir amcan lles ar gyfer Tlodi fel 'Diogelu pobl rhag tloidi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol'. Mae'r meysydd sy'n cyfrannu at gyflawni hyn yn cael eu cynnwys yn y pum blaenoriaeth a ganlyn:

- Tlodi Incwm
- Tlodi Plant
- Tlodi Bwyd
- Tlodi Tanwydd
- Tlodi Digidol

Mae'r rhesymau dros eu dethol yn cael eu hegluro yn dilyn bob blaenoriaeth ynghyd ag unrhyw faterion polisi cenedlaethol ac eglurhad o'r 'hyn yr ydym yn ei olygu gyda'.

Beth sydd wedi newid ar gyfer 2022/23?

Mae Cynllun y Cyngor yn seiliedig ar chwe thema a fanylir ymhellach arnynt fel blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn. Mae pedair blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn newydd wedi cael eu nodi ar gyfer 2022-23.

Sef:

- Newid Hinsawdd ac Ymaddasu
- Mynediad Gwyrdd
- Isadeiledd Digidol
- Lles

Mae'r canlyniadau a'r effeithiau hirdymor yn cyd-fynd â'n Hamcanion Lles a sefydlwyd i fodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion Lles yn ein hunanasesiad.

Yn ogystal, byddwn yn ystyried y pum dull gweithio, a elwir yn egwyddorion datblygu cynaliadwy, a byddwn yn adrodd arnynt.

Caiff cynnwys y Cynllun ei adolygu a'i newid bob blwyddyn.

Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu

Fel sefydliad cyhoeddus mae'r Cyngor yn cael ei archwilio'n rheolaidd i archwilio a herio ei berfformiad a'i effeithiolrwydd. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni'n bennaf gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Cafodd y Cyngor Grynoded **Archwilio Blynyddol** ffafriol gan Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2021. Y sylwebaeth gyffredinol oedd *“Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y Cyngor wedi bodloni ei ddyletswyddau dyledus yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, fel a nodwyd gan orchymyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.”*

Roedd yr arolwg mwyaf diweddar gan Estyn am wasanaethau addysg y Cyngor yn ffafriol ac ar gael ar wefan Estyn. Yn gyffredinol, mae disgyblion Sir y Fflint yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod o addysg statudol.

Mae gan **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** raglen barhaus o gysylltiad a gweithgarwch arolygu ledled Cymru. Yn Sir y Fflint, fe wnaethon nhw gynnal Gwiriad Sicrwydd gwasanaeth cyfan ym mis Ebrill 2021, yn edrych ar:

- Ba mor dda yr ydym yn sicrhau bod pobl, gofalmwr ac ymarferwyr yn cael dweud eu dweud, gwneud dewisiadau hysbys ac yn cael rheolaeth dros eu bywydau
- Pa mor llwyddiannus y mae'r Cyngor yn hyrwyddo atal a gostwng yr angen am fwy o gefnogaeth neu gefnogaeth swyddogol gan asiantaethau statudol
- Sut bo cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth yn cael eu defnyddio i fanteisio i'r eithaf ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a sicrhau cyflawni gwasanaeth integredig a chynaliadwyedd gwasanaeth
- I ba raddau mae'r Cyngor yn hyrwyddo lles, gan sicrhau bod pobl yn cynnal eu diogelwch ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sy'n bwysig iddyn nhw

Derbyniodd y Cyngor lythyr Gwirio Sicrwydd cadarnhaol, yn nodi nifer o feysydd o arferion cryf, dim argymhellion ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a 3 argymhelliad ar gyfer y Gwasanaethau Plant, sydd i gyd ar y trywydd cywir i gael eu gweithredu.

Gweithgarwch Rheoleiddio / Archwilio Eraill

Mae'r Cyngor yn paratoi crynodeb blynyddol o'r holl weithgarwch archwilio a rheoleiddio allanol. Cafodd yr un diwethaf ei lunio ym mis Mawrth 2022 a chafodd ei ystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg o astudiaethau lleol a chenedlaethol ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Sut mae Ymgynghoriad yn hysbysu ein Cynllun

Ni chynhaliwyd ymarfer ymgynghori dwys am y Cynllun ei hun, yn unol â dewis lleol, o ystyried y cefndir hwn. Mae Aelodau Etholedig, ar ran y cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli, wedi cyfrannu at osod blaenoriaethau'r Cyngor a defnyddio eu swyddogaeth gynrychiadol i brofi perthnasedd y Cynllun yn erbyn barn y cyhoedd. Cafodd hyn ei hwyluso drwy rannu fersiwn ddrafft y Cynllun gyda'r Aelodau etholedig, a drwy ei gyflwyno i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal â hyn, ymgynghorwyd ag Aelodau etholedig ar dargedau a cherrig milltir, i'w defnyddio i fesur cyflawniadau'r Cynllun, gan sicrhau bod digon o gyflymder ac uchelgais ynddo.

Mae ymgynghoriad parhaus am bob rhan o'r Cynllun yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid. Mae'r Cyngor yn fodlon cael adborth am y cynllun, a'i ddiwygio unrhyw bryd.


Cynllun y Cyngor, Rhan 1 a 'Rhan 2: Sut ydym ni'n mesur cyflawniad?'

Mae'r ddwy ddogfen yma yn gysylltiedig â'r ddogfen ategol 'mesur cyflawniad', sy'n darparu llawer mwy o fanylion am y perfformiad targed a'r cerrig milltir fyddwn ni'n osod i ni'n hunain.





ein blaenoriaethau



Thema: Tlodi

Amcan Lles: Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol

Blaenoriaeth Tlodi Incwm

Diffiniad

Pobl ar incwm isel nad oes ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer costau byw dydd i ddydd

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i fod yn gadarn yn ariannol drwy:
 - a) Fanteisio i'r eithaf ar nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i gael cefnogaeth i hwyluso newid tymor hwy - erbyn mis Mawrth 2023
 - b) Sicrhau bod yr hawl i gael budd-daliadau yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl mewn ffordd amserol drwy brosesu hawliau'n effeithlon - erbyn mis Mawrth 2023
 - c) Sicrhau bod nifer y bobl sy'n cofrestru i gael Taliadau Dewisol Tai a chefnogaeth ariannol arall yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl - erbyn mis Mawrth 2023
 - d) Parhau i gynnig ein canolbwynt cymunedol (Canolfannau Cyswllt) gan roi mynediad i amrywiaeth o raglenni, gwasanaethau ac asiantaethau ynghyd mewn un lle - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ostwng y risg ac effaith tlodi ymysg aelwydydd Sir y Fflint
- Cefnogi preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau cefnogi

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Diwygiad Lles 2016
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol 2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cadernid Ariannol/Bod yn gadarn yn ariannol** - Adnoddau digonol i fodloni gofynion teuluol
- **Tlodi Incwm** - Pan fo adnoddau yn llai nag isafswm eich anghenion

Thema: Tlodi



Blaenoriaeth Tlodi Plant

Diffiniad

Plant sy'n methu cael gafael ar fwyd, dillad, lloches nac addysg digonol er mwyn byw bywyd iach ac egniol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Mae'r gost o anfon plant i'r ysgol wedi'i leihau trwy:
 - a) Wneud y prosesau i hawlio prydau ysgol am ddim mor hawdd â phosibl er mwyn cynyddu'r canran sy'n cofrestru yn erbyn hawliad - erbyn mis Mawrth 2023
 - b) Annog cofrestriad o'r brecwast ysgol am ddim ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim - erbyn mis Mawrth 2023
 - c) Cynyddu'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer y grant gwisg ysgol - erbyn mis Mawrth 2023
 - d) Datblygu rhwydwaith o gyfnewidfeydd gwisgoedd ysgol drwy'r sir a'i gefnogi drwy ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y we - erbyn mis Mawrth 2023
- Caiff mynediad am ddim at lyfrau, rhwydweithiau TGCh, dyfeisiau a gwasanaethau llyfrgell ei gynnal trwy:
 - a) Gynnal rhwydwaith o saith llyfrgell mewn partneriaeth ag Aura - erbyn mis Mawrth 2023
 - b) Cynyddu'r defnydd o adnoddau ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc - erbyn mis Mawrth 2023

- Bydd gan blant fynediad at gyfleoedd chwarae trwy:
 - a) Sicrhau bod gan blant fynediad at brosiectau gwaith chwarae mynediad agored mewn cymunedau lleol - erbyn mis Mawrth 2023
 - b) Sicrhau bod gan blant fynediad at ardaloedd chwarae awyr agored wedi'u cynnal yn dda, sy'n cynnig amgylchedd chwara amrywiol a chyfoethog - erbyn mis Mawrth 2023
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn gallu cael mynediad at fwyd, ymarfer corff a chynlluniau cyfoethogi yn ystod gwyliau'r haf - erbyn mis Mawrth 2023
- Sicrhau bod gan blant y cyfle i gymryd rhan mewn rhaglenni chwaraeon cymunedol ystyrion (sy'n effeithio ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, atal cyffuriau ac alcohol a Llinellau Sirol) - erbyn mis Mawrth 2023
- Sicrhau bod gan blant fynediad at ardaloedd chwarae awyr agored wedi'u cynnal yn dda, sy'n cynnig amgylchedd chwarae amrywiol a chyfoethog - erbyn mis Mawrth 2023
- Sicrhau bod gan blant fynediad at ardaloedd chwarae awyr agored wedi'u cynnal yn dda, sy'n cynnig amgylchedd chwarae amrywiol a chyfoethog - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod y rhai sy'n gymwys yn cael mynediad at gynlluniau cymorth
- Cynyddu mynediad at, a sgiliau o ran gwasanaethau digidol
- Sicrhau mynediad parhaus i amgylcheddau chwarae amrywiol a chyfoethog

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru
- Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru
- Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm Llywodraeth Cymru

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tlodi Plant** - Cyflwr hirdymor o beidio â chael digon o adnoddau i fforddio bwyd, amodau byw rhesymol neu amwynderau i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gymerir yn ganiataol gan eraill yn eu cymdeithas



Thema: Tlodi



Blaenoriaeth

Tlodi Bwyd

Diffiniad

Pobl sy'n methu cael gafael ar fwyd sy'n bodloni eu hanghenion a'u gofynion maeth dyddiol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Mae gan bawb yn Sir y Fflint fynediad at fwyd ffres, da a fforddiadwy trwy:
 - a) Ddatblygu gwasanaeth "Well Fed yn y Cartref" - erbyn mis Rhagfyr 2022
 - b) Parhau i ddatblygu a darparu gwasanaeth prydau "Adre o'r Ysbyty" - erbyn mis Mawrth 2023
 - c) Cyflwyno gwasanaeth cludo a danfon bwyd "Prydau Symudol" i'r rhai diamddiffyn - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol ar gyfer tlodi bwyd ac ansicrwydd bwyd
- Sicrhau ein bod yn cyrraedd cymunedau gwledig a threfol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol 2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tlodi bwyd** - Pobl sy'n methu cael gafael ar fwyd sy'n bodloni eu hanghenion a'u gofynion maeth dyddiol.

Thema: Tlodi



Blaenoriaeth

Tlodi Tanwydd

Diffiniad

Aelwydydd sydd â chostau tanwydd uwch na'r cyfartaledd, ac mae talu'r costau hynny yn achosi iddyn nhw fynd i dlodi

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Leihau'r risg o dlodi tanwydd ar gyfer preswylwyr trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi - erbyn mis Mawrth 2023

Yn gysylltiedig â thai fforddiadwy a hygyrch

- Ymgysylltu, cefnogi ac atgyfeirio aelwydydd diamddiffyn i leihau tlodi tanwydd a gwella iechyd a lles - erbyn mis Mawrth 2023

Yn gysylltiedig â Lles Personol a Chymunedol

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Leihau effaith y cynnydd mewn costau tanwydd
- Cefnogi'r rhaglen genedlaethol ar gyfer ymestyn y rhwydwaith nwy drwy brif gyflenwad
- Leihau effaith tlodi tanwydd ar yr aelwydydd mwyaf diamddiffyn

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cynllun Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru
- Cynllun Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tlodi Tanwydd** - Aelwydydd sydd angen talu mwy na 10% o'u hincwm aelwyd llawn i gynnal arferio gwresogi boddhaol
- **Aelwydydd Diamddiffyn** - Aelwydydd lle mae'r deiliaid yn cynnwys un neu fwy o'r canlynol:
 - unigolyn 60 oed a hŷn,
 - plentyn dibynnol neu blant o dan 16 oed,
 - unigolyn sengl o dan 25 oed,
 - unigolyn sy'n byw gyda salwch hirdymor neu sy'n anabl.

Thema: Tlodi

Blaenoriaeth Tlodi Digidol

Diffiniad

Methu rhyngweithio'n llawn mewn byd digidol pan fo unigolyn angen gwneud hynny, yn lle mae o angen gwneud hynny a sut mae o'n dymuno gwneud hynny

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol drwy hyrwyddo hyfforddiant addas i ddatblygu sgiliau digidol a hyder yn y cymunedau ydym ni'n eu gwasanaethu - erbyn mis Mawrth 2023
- Darparu mynediad am ddim i'r cyhoedd i'r rhyngwyd a dyfeisiau lle bo angen yng Nghanolffannau Sir y Fflint yn Cysylltu, gwasanaethau llyfrgell Aura a'r pedair Canolfan Hamdden - erbyn mis Mawrth 2023
- Cynyddu benthyciadau o ddyfeisiau trwy Gynllun Mynediad Digidol Aura - erbyn mis Mawrth 2023
- Cynyddu'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer cyfleoedd dysgu digidol a gefnogir gan Aura - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddiwallu disgwyliadau cwsmeriaid i allu cael mynediad at wasanaethau ar-lein
- Moderneiddio yn ymarferol trwy newid y ffordd rydym yn dylunio ac yn darparu gwasanaethau
- Sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau yn gallu cael mynediad at wasanaethau'n bersonol neu dros y ffôn
- Cefnogi pobl sydd â diffyg sgiliau a hyder mewn cymdeithas fodern

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi buddsoddiad mewn gwasanaethau digidol er mwyn cefnogi moderneiddio wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Mynediad Digidol** - Y gallu i gwsmeriaid ddefnyddio offer a thechnolegau megis y rhyngwyd a chyfrifiaduron wrth gysylltu â'r Cyngor
- **Cefnogwyr Digidol** - Gweithwyr hyfforddedig a phartneriaid y trydydd sector sy'n cynorthwyo cwsmeriaid i ddefnyddio offer a thechnolegau er mwyn defnyddio gwasanaethau digidol

Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch

Amcan Lles: Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel



Blaenoriaeth

Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd

Diffiniad

Yn cynnig cymorth i bobl i gadw eu tai, byw yn dda ac atal digartrefedd

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gomisiynu ystod eang o gymorth mewn perthynas â thai, sy'n bodloni anghenion pobl Sir y Fflint - erbyn mis Mawrth 2023
- Hyrwyddo gwasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd gyda'n preswylwyr a'n partneriaid - erbyn mis Mawrth 2023
- Sicrhau dull partneriaeth aml-asiantaeth i atal digartrefedd a datblygu diwylliant lle mae digartrefedd yn "fusnes i bawb" - erbyn mis Mawrth 2023
- Pan fo digartrefedd yn digwydd, sicrhau ei fod yn rhywbeth prin, byr ac na fydd yn digwydd eto - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu ac ymestyn ein dulliau Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Brys ar gyfer y rhai sy'n profi digartrefedd - erbyn mis Mawrth 2023
- Ailfodelu'r cynnig a gwasanaeth llety Canolfan Digartrefedd "gwelyau brys" - erbyn mis Mawrth 2023
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu canolfan digartrefedd a gwasanaethau cefnogi pobl ifanc - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Atal digartrefedd yn ei holl ffurfiau trwy ymyrraeth gynnar a chymorth tai
- Ymateb i anghenion tai newidiol pobl Sir y Fflint ar ôl pandemig Covid

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Trawsnewid gwasanaethau digartrefedd
- Darparu Polisi Tai yn Gyntaf Llywodraeth Cymru
- Ymateb i argymhellion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Ymyrraeth Gynnar** - bwriad ymyrraeth gynnar yw nodi a mynd i'r afael â phroblem neu gyflwr yn gynnar. Wrth feddwl am ddigartrefedd, mae hyn fel arfer yn golygu strategaethau sy'n targedu pobl sy'n amlwg mewn perygl o, neu sydd wedi dod yn ddigartref yn ddiweddar.
- **Tai yn Gyntaf** - mae 'Tai yn Gyntaf' yn ddull sy'n canolbwyntio ar adfer er mwyn dod â digartrefedd i ben drwy symud pobl sy'n profi digartrefedd i dai annibynnol a pharhaol ac yna darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol os oes angen.
- **Ailgartrefu Brys** - mae ailgartrefu brys yn ddull ar gyfer pobl sydd angen mynediad at dai a dyna maen nhw ei angen fwyaf ac yn gyntaf; yn aml, y rheswm pennaf eu bod yn ddigartref yw diffyg tai

Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch

Blaenoriaeth Anghenion Tai a Dewisiadau Tai

Diffiniad

Helpu pobl i archwilio eu dewisiadau tai er mwyn gallu cael gafael ar y tai priodol i fodloni eu hanghenion

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Hyrwyddo Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH), Cofrestr Tai Cyffredin, Cofrestr Tai Fforddiadwy a Phorth Cymorth Tai yn y gymuned a chyda gweithwyr proffesiynol - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu dulliau hunan-wasanaeth sy'n galluogi pobl i ganfod eu dewisiadau tai eu hunain trwy gymorth ar-lein - erbyn mis Mawrth 2023

- Peilota proses asesu risg i ganfod anghenion cymorth cyn tenantiaeth er mwyn lleihau'r risg o fethiant tenantiaeth - erbyn mis Mawrth 2023
Yn gysylltiedig â Thlodi
- Adolygu ein stoc tai gwarchod er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni anghenion tenantiaid cyfredol a darpar denantiaid - erbyn mis Medi 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddiwallu anghenion tai a llety amrywiol y boblogaeth leol
- Canfod anghenion cymorth pobl a'u helpu i gynnal llety a lleihau'r risg o ddigartrefedd trwy ystod o wasanaethau cymorth

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Dod â throi allan i ddigartrefedd i ben
- Strategaethau Pobl Hŷn

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Y Gofrestr Tai Fforddiadwy** - Yn casglu anghenion tai ac yn dyrannu tai fforddiadwy ar wahân i dai cymdeithasol e.e. cartrefi sy'n llai na gwerth ar y farchnad un ai ar gyfer rhentu neu brynu
- **Y Gofrestr Tai Cyffredin** - Mekanwaith a ddefnyddir gan Sir y Fflint i gipio anghenion tai a dyrannu tai cymdeithasol ar draws holl bartneriaid tai
- **Porth Cymorth Tai** - Un pwynt mynediad ar gyfer anghenion cymorth tai a phorth i wasanaethau cymorth
- **Tai Gwarchod** - Mae tai gwarchod yn dai ar gyfer pobl hŷn sy'n eu galluogi nhw i fyw yn annibynnol mewn cartref sy'n hawdd i'w reoli, gan eu gadael yn rhydd i fwynhau bywyd gyda'r tawelwch meddwl bod cymorth wrth law pan fyddent ei angen

Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch



Blaenoriaeth

Tai cymdeithasol

Diffiniad

Gweithio gyda phartneriaid tai i ddatblygu a buddsoddi mewn tai fforddiadwy, gyda dulliau adeiladu modern ac ymrwymiad i fod yn garbon niwtral

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Weithio gyda phartneriaid cymdeithas tai i adeiladu tai cymdeithasol newydd ac eiddo fforddiadwy ychwanegol - erbyn mis Mawrth 2023
- Cynyddu portffolio tai'r Cyngor trwy adeiladu tai cymdeithasol ac eiddo fforddiadwy ar gyfer Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru - erbyn mis Mawrth 2023
- Sicrhau bod stoc dai'r Cyngor yn diwallu Safonau Ansawdd Tai Cymru ac yn cyflawni isafswm sgôr effeithlonrwydd ynni SAP sef 65 - erbyn mis Rhagfyr 2022 **Yn gysylltiedig â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**
- Datblygu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio cartrefi'r Cyngor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o'u heffeithlonrwydd thermol a bod y gost o wresogi cartrefi

yn cael ei leihau - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd, Yn gysylltiedig â Thlodi**

- Gweithio gyda phreswylwyr i sicrhau bod ein cymunedau'n cael eu rheoli'n dda, yn llefydd diogel a chynaliadwy i fyw ynddynt - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**
- Cefnogi ein tenantiaid i gael mynediad at dechnoleg a chreu cymunedau digidol cynaliadwy - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Thlodi**
- Gwrando ar ein tenantiaid a gweithio gyda nhw i wella ein gwasanaethau, ein cartrefi a'n cymunedau - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fodangen i ni:

- Adeiladu'r nifer mwyaf posib o dai Cyngor fel rhan o'r datrysiad cyflenwad tai
- Adeiladu'r nifer mwyaf posib o dai Cyngor i gefnogi a chyfrannu at gyflenwad tai cyffredinol Sir y Fflint
- Diwallu targed Llywodraeth Cymru bod yr holl dai cymdeithasol wedi'u codi i Safon Ansawdd Tai Cymru

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
- Adeiladu cartrefi cymdeithasol gwell yng Nghymru, mwy ohonynt ac yn fwy cyflym (Ailddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru, Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol, Chwefror 2020)
- Er mwyn i Gymru ddod yn genedl carbon isel drwy gael targed Llywodraeth Cymru i ostwng allyriadau carbon yng Nghymru o 80% erbyn 2050 (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016)

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tai Fforddiadwy** - Tai ar gyfer rhent, prynu neu gynlluniau ecwiti a rennir, sy'n parhau i fod ar gael o dan brisiau'r farchnad am oes, ar gyfer y sectorau yn y gymuned sy'n methu fforddio tai ar y farchnad agored
- **Di-Garbon Net** - Bod allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor yn hafal i'r swm a amsugnir i'r tir
- **Safon Ansawdd Tai Cymru** - Safon Ansawdd Tai Cymru yw safon ansawdd genedlaethol ar gyfer cartrefi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd Safon Ansawdd Tai Cymru ei chyflwyno gyntaf yn 2002 a'i nod yw sicrhau bod anheddau o ansawdd da a'u bod yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol ac i'r dyfodol.



Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch

Blaenoriaeth Sector Rhentu Preifat

Diffiniad

Cefnogi'r sector preifat i godi safonau o ran rheoli a chyflwr tai a hyrwyddo tenantiaeth gynaliadwy yn ein cymunedau

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ymgysylltu gyda thenantiaid y sector preifat, gan roi llais iddynt ac ymateb i'w hanghenion - erbyn mis Mawrth 2023
- Gweithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid ac asiantaethau'r sector preifat i ddeall eu hanghenion yn well - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu'r "cynnig landlordiaid" sy'n annog landlordiaid i weithio gyda'r Cyngor i godi safonau rheolaeth a chyflwr cartrefi lle bo angen - erbyn mis Mawrth 2023
- Gwella mynediad at eiddo sector preifat i'r rhai sy'n ddigartref, sydd mewn risg o fod yn ddigartref ac sydd angen tai - erbyn mis Mawrth 2023
- Mapio Tai Amlfeddiannaeth ar draws Sir y Fflint i sicrhau bod isafswm cyfreithiol safonau tai yn cael eu bodloni ac i wella ansawdd bywyd preswylwyr - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod landlordiaid a thenantiaid yn cael eu cefnogi i gynnal cartrefi o ansawdd a thenantiaethau a reolir yn dda o fewn y sector preifat lleol
- Cynyddu cyfleoedd o fewn y sector rhentu preifat i aelwydydd incwm isel fyw yn llwyddiannus
- Lliniaru'r pwysau ar wasanaethau digartrefedd trwy well mynediad at gartrefi a rentir yn breifat
- Codi safonau byw ar gyfer tenantiaid sy'n byw mewn tai amlfeddiannaeth

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Rhentu Doeth Cymru
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Safonau Tai Cymru

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Tai Amlfeddiannaeth** - Eiddo a rentir gan o leiaf 3 person nad ydynt o'r un 'aelwyd' (er enghraifft, teulu) ond yn rhannu cegin, ystafell ymolchi neu gyfleusterau toiled
- **Rhentu Doeth Cymru** - Mae Rhentu Doeth Cymru yn cynorthwyo'r rhai sy'n gosod neu'n rheoli eiddo rhent yng Nghymru er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn darparu cyngor ar rentu cartrefi diogel ac iach, prosesu cofrestradau landlordiaid ac yn rhoi trwyddedau i landlordiaid ac asiantaethau sy'n rheoli eiddo sector preifat yng Nghymru

Thema: Tai Fforddiadwy a Hygyrch



Blaenoriaeth Eiddo Gwag

Diffiniad

Dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy wella'r farchnad dai leol a gwella ein cymunedau lleol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Dod a chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd trwy Fenthyciadau Tai Gwag - erbyn mis Mawrth 2023
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu gwasanaeth rheoli prosiectau ar gyfer landlordiaid anfasnachol i annog mwy i gofrestru ar gyfer y Cynllun Benthyciad Tai Gwag – erbyn mis Mawrth 2023
- Targedu cartrefi gwag 'problemus' yn ein cymunedau a defnyddio pwerau gorfodi lle bo'n briodol i wella ein cymunedau a chynyddu'r cyflenwad tai - erbyn mis Mawrth 2023
- Archwilio cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r tai ac adfywio ein trefi trwy ailddatblygu'r Stryd Fawr - erbyn mis Mawrth 2023

Yn gysylltiedig â'r Economi

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd gan fod dros 400 ohonynt yn Sir y Fflint sy'n wag ar hyn o bryd
- Lleihau effaith eiddo gwag mewn cymdogaethau
- Bydd ailddatblygu'r stryd fawr yng nghanol trefi yn ystyried creu cartrefi allan o eiddo gwag
- Cefnogi perchnogion tai trwy gynnig gwasanaeth rheoli prosiectau i annog adnewyddu eiddo gwag

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu adnewyddu eiddo gwag i mewn i gartrefi

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynllun Benthyciadau Tai Gwag** - Cynllun sy'n cynnig benthyciadau di-log i adfer eiddo gwag a'u gwneud yn ddiogel i bobl fyw ynddynt

Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

Amcan Lles: Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hól-troed carbon eu hunain



Blaenoriaeth Carbon Niwtral

Diffiniad

Bod yn Gyngor di-garbon net erbyn 2030 a chefnogi camau gweithredu datgarboneiddio ehangach ledled y Sir, gan wneud hyn yn ganolog i'r broses adfer ar ôl Covid-19

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gasglu gwybodaeth ar allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol y Cyngor i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Rhaglen Carbon - erbyn mis Medi 2022
- Adolygu'r polisi caffael i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan gyflenwyr - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu cynlluniau tuag at fod yn ddi-garbon net ar gyfer ein hasedau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru - erbyn mis Mawrth 2023
- Gweithio gyda phartneriaid ymddiriedaeth hamdden a diwylliant Sir y Fflint i ostwng allyriadau carbon - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi-garbon net erbyn 2030, yn ogystal â lleihau newid hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol
- Sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio camau datgarboneiddio i hwyluso adferiad economaidd Covid 19
- Cefnogi'r cyhoedd, busnesau, diwydiant, cymunedau ac ati, i gymryd camau unigol a chymryd cyfrifoldeb ar gyfer newid hinsawdd a lliniaru

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Darparu Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'r Map Llwybr Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Datgarboneiddio** - Proses o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac arddwysedd carbon
- **Di-Garbon Net** - Bod allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor yn hafal i'r swm a amsugir i'r tir

Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



Blaenoriaeth

Newid Hinsawdd ac Ymaddasu

Diffiniad

Bod yn fwy cadarn am y newidiadau sydd wedi digwydd oherwydd newid hinsawdd a pharatoi ar gyfer y newidiadau a ragwelir yn y dyfodol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Adolygu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd y Cyngor - Mawrth 2023
- Adolygu Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol y Cyngor - Tachwedd 2022
- Cynnal gwaith archwilio llifogydd a gwaith lliniaru lle bo hynny'n briodol - Mawrth 2023
- Asesu dichonolrwydd cynlluniau mewn asesiadau tir ar gyfer ymwrthedd llifogydd a sychder a gwella bioamrywiaeth a chynyddu storio carbon - Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gefnogi cynllun ymaddasu newid hinsawdd Llywodraeth Cymru i ymateb i effeithiau newid hinsawdd yr ydym eisoes yn eu gweld a'r rheiny yr ydym yn eu rhagweld yn y dyfodol
- Sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio camau datgarboneiddio i hwyluso adferiad economaidd Covid 19
- Cefnogi gofyniad Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol alinio eu Strategaethau Rheoli Risg Llifogydd gyda'r Strategaeth Genedlaethol
- Bodloni gofyniad Llywodraeth Cymru i adolygu Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol y Cyngor cyn cyhoeddi'r TAN15 newydd

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Datgarboneiddio** - Proses o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac arddwysedd carbon

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cyflawni Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'i gynllun ymaddasu newid hinsawdd 'Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd'

Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



Blaenoriaeth Strategaeth Fflyd

Diffiniad

Lleihau effaith amgylcheddol ein fflyd

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Newid fflyd yr awdurdod i drydan a thanwydd amgen (hydrogen ac ati) - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Barhau i leihau ein hallyriadau carbon i fodloni targedau Llywodraeth Cymru a chwarae ein rhan i helpu fynd i'r afael â chanlyniadau newid hinsawdd

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Datganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru yn Ebrill 2019 gyda dyheadau o gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu lleihad o 80% mewn allyriadau carbon - erbyn 2050

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cerbyd Trydan** - Cerbyd sy'n defnyddio batri neu gell danwydd i redeg cerbyd trwy ddefnyddio motor trydan
- **Cerbyd Hybrid** - Cerbyd sy'n defnyddio ffynonellau ynni trydan ac arferol e.e. petrol neu ddisel
- **Di-Garbon Net** - Bod allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor yn hafal i'r swm a amsugrir i'r tir

Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

Blaenoriaeth Amgylchedd Gwyrdd

Diffiniad

Gwella a datblygu bioamrywiaeth a choed i gyflawni nifer o fanteision i bobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddarparu cynnydd mewn brigdwf fel rhan o'r Cynllun Coetir a Choed Dinesig - erbyn mis Mawrth 2023
- Gwella'r amgylchedd naturiol trwy gyflawni dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 Deddf yr Amgylchedd Cymru - erbyn mis Mawrth 2023

- Cyflawni prosiectau isadeiledd gwyrdd dan ffrwd gyllido grantiau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gadw cydbwysedd rhwng yr angen am ddatblygu cynaliadwy ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cynllun Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Bioamrywiaeth** - Yr amrywiaeth o fywyd a ddarganfyddir mewn lle
- **Ecosystem** - Cymuned neu grŵp o organebau byw sy'n byw mewn amgylchedd penodol ac yn rhyngweithio gyda'i gilydd ynddo
- **Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** - Gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus sy'n ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru sydd angen cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau
- **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:** Ffrwd gyllido Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o adfer a gwella asedau naturiol Cymru, lle bo pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus

Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



Blaenoriaeth Mynediad Gwyrdd

Diffiniad

Hyrwyddo, rheoli a diogelu ein mannau gwyrdd er mwyn cynnig amryfal fuddion i'r amgylchedd ac i'n trigolion a'n hymwelwyr

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu Parc Arfordirol Sir y Fflint drwy gynhyrchu astudiaeth gwmpasu - erbyn mis Mawrth 2023
- Cyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gyda chanolbwynt ar sicrhau gwell mynediad i bawb a hyrwyddo Cerdded er Budd Iechyd - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddeall lle bo angen mynediad ychwanegol a darparu cyfleoedd lle bo hynny'n bosib
- Parhau gyda'n polisi o gynyddu cyfleoedd lle gellir gwella mynediad ar draws y rhwydwaith
- Amlygu a hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd gwyrdd er budd gwella iechyd meddwl a chorfforol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy** - cynllun statudol 10 mlynedd i ddarparu gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy
- **Mynediad i Bawb** - Gwneud llwybrau, lle bo hynny'n ymarferol, yn hygyrch i bawb dim ots beth yw eu gallu
- **Cerdded er Budd Iechyd** - Annog pobl i gerdded mwy i wella eu hiechyd a'u lles

Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

Blaenoriaeth Ynni Adnewyddadwy

Diffiniad

Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd am ynni adnewyddadwy ledled Ystâd y Cyngor a chymunedau ehangach

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Asesu dichonolrwydd ynni adnewyddadwy ac asedau tir a chysylltu â dyheadau carbon - erbyn Medi 2022
- Cytuno ar strategaeth fuddsoddi briodol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol - erbyn mis Medi 2022
Yn gysylltiedig â'r Economi

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Hwyluso ffynonellau newydd o incwm i gefnogi darparu gwasanaethau'r Cyngor
- Manteisio i'r eithaf a'r defnydd mwyaf economaidd o asedau tir y Cyngor
- Cefnogi cymunedau i fod yn berchen ar systemau ynni adnewyddadwy a'u gweithredu lle bo hynny'n briodol
- Cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi-garbon net erbyn 2030, yn ogystal â lleihau newid hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol
- Sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio camau datgarboneiddio i hwyluso adferiad economaidd Covid 19

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Newidiadau arfaethedig gan Ofgem i gostau rhwydwaith trydan y DU a'r effaith ar gostau cyswllt grid a defnydd parhaus i gostau system
- Darparu Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'r Map Llwybr Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Datgarboneiddio** - Proses o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac arddwysedd carbon
- **Di-Garbon Net** - Bod allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor yn hafal i'r swm a amsugnir i'r tir
- **Ynni Adnewyddadwy** - Ynni sy'n cael ei gynhyrchu o ffynhonnell na fydd yn dod i ben e.e. yr haul, y gwynt, dŵr ac ati

Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



Blaenoriaeth

Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy

Diffiniad

Darparu cyfleoedd i gynyddu'r lefelau cerdded a beicio (teithio llesol) a chynnig mynediad i ddulliau cynaliadwy eraill o deithio

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Hyrwyddo'r defnydd o gludiant cyhoeddus drwy ddatblygu rhwydwaith bysus craidd y Cyngor ymhellach - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â'r Economi**
- Hyrwyddo teithiau aml-fodd a datblygu canolfannau trafniadaeth strategol - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â'r Economi**
- Datblygu rhwydwaith gwefru ceir trydan y Sir - erbyn mis Mawrth 2023
- Hyrwyddo teithio llesol a datblygu rhwydwaith cerdded a beicio'r Sir ymhellach - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Lles Personol a Chymunedol**

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Alluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau allweddol a chysylltu cymunedau ledled Sir y Fflint
- Lleihau tagfeydd ac oedi ar ein rhwydwaith priffyrdd
- Manteisio i'r eithaf ar arian sydd ar gael drwy brosiectau blaengaredd
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio cerbydau trydan

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cyflwr priffyrdd yn dirywio gyda chefnogaeth gyfyngedig ar gael gan Lywodraeth Cymru
- Masnachfaint Rheilffyrdd y Gororau
- Darparu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, hyrwyddo ffyrdd teithio amgen
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru
- Darparu Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru a'r Map Llwybr Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Teithio llesol** - Dewisiadau cludiant cynaliadwy a heb fodur
- **Datgarboneiddio** - Proses o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac arddwysedd carbon
- **Cludiant Amlfodd** - Cyfuniad o wahanol ffyrdd o gludiant (bws, trênn, car, beicio a cherdded)
- **Masnachfaint Rheilffyrdd** - Proses i ddyfarnu trefniant gweithredu ar reilffyrdd unigol

Thema: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd



Blaenoriaeth Economi Gylchol

Diffiniad

Cefnogi a hyrwyddo strategaeth Llywodraeth Cymru i greu economi gylchol gynaliadwy yn Sir y Fflint

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gyflawni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu ac ymestyn y Gwastraff Iard Safonol a'r Orsaf Drosglwyddo Ailgylchu - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi a hyrwyddo'r mentrau Ailddefnyddio ac Atgyweirio mewn partneriaeth â Refurbs Flintshire - erbyn mis Mawrth 2023
Yn gysylltiedig â Thlodi, Yn gysylltiedig â Lles Personol a Chymunedol, Yn gysylltiedig ag Addysg a Sgiliau
- Hyrwyddo'r opsiwn o aildefnyddio ac atgyweirio eitemau dieisiau

yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref drwy bartneriaeth gydag elusennau neu fentrau cymdeithasol lleol - erbyn mis Mawrth 2023 Yn gysylltiedig â Thlodi, Yn gysylltiedig â Lles Personol a Chymunedol, Yn gysylltiedig ag Addysg a Sgiliau

- Gweithio mewn partneriaeth, cefnogi ac ymgysylltu gyda grwpiau cymunedol drwy ddatblygu mentrau ailgylchu - erbyn mis Mawrth 2023 Yn gysylltiedig â Thlodi, Yn gysylltiedig â Lles Personol a Chymunedol, Yn gysylltiedig ag Addysg a Sgiliau
- Cefnogi busnesau lleol yn eu hymdrechion i ostwng eu hól-troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon - erbyn mis Mawrth 2023 Yn gysylltiedig ag Economi

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Weithredu Economi Gylchol
- Bodloni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru
- Hyrwyddo atgyweirio ac aildefnyddio pan fo modd
- Cyflwyno datrysiadau rheoli gwastraff cynaliadwy
- Hyrwyddo ffyrdd rhanbarthol o weithio
- Lleihau'r defnydd o becynnau un tro

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Adolygu targedau ailgylchu statudol
- Ailddosbarthu mathau o sbwriel e.e. pren wedi'i dynnu o'r gwaith cyfrifo ailgylchu
- Pwysau a deddfwriaeth amgylcheddol
- Pwysau ariannol ar gefnogaeth grantiau Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Tu Hwnt i Ailgylchu

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Economi Gylchol** - Economi gylchol yw system economaidd sydd â'r bwriad o gael gwared ar ailgylchu a defnyddio adnoddau'n barhaus
- **Targedau Ailgylchu** - Gosodir y rhain gan Lywodraeth Cymru gyda'r posibilrwydd o ddirwyon torddyletswydd am beidio â chyflawni'r targedau
- **Atgyweirio ac Ailddefnyddio** - Cadw eitemau yn cael eu defnyddio am cyn hired â phosib gan ostwng y ddibyniaeth ar gael gwared ar bethau
- **Glasbrint Gwastraff** - Pennu trefniadau casgliadau bob Cyngor yng Nghymru



Thema: Yr Economi

Amcan Lles: Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy a thwf

Blaenoriaeth Adfywio Canol Trefi

Diffiniad

Adfywio ac ail-fuddsoddi yng nghanol ein trefi

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Fonitro iechyd a bywiogrwydd canol trefi i gefnogi rheolaeth effeithiol a phenderfyniadau buddsoddi busnes - erbyn mis Mawrth 2023
 - Annog a chefnogi buddsoddiad mewn eiddo yng nghanol trefi, yn enwedig er mwyn hwyluso defnydd mwy cynaliadwy - erbyn mis Mawrth 2023
 - Gwella'r amgylchedd yng nghanol trefi - erbyn mis Mawrth 2023
 - Cefnogi twf mentrau cymunedol yng nghanol trefi - erbyn mis Mawrth 2023
- Yn gysylltiedig â Thai Fforddiadwy a Hygyrch**

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddiogelu hyfywedd economaidd canol ein trefi

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Dull gweithredu Llywodraeth Cymru i Adfywio

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Mentrau Cymdeithasol** - Busnesau sy'n rhoi amcanion cymdeithasol wrth wraidd eu gwaith

Thema: Yr Economi

Blaenoriaeth Busnes

Diffiniad

Galluogi parhad busnes ac annog buddsoddiad priodol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ymgysylltu â busnesau bach canol tref a gwella'r pecynnau cefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi busnesau bach a/neu lleol i ymgysylltu â chyfleoedd caffael y sector cyhoeddus - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi adferiad marchnadoedd stryd a dan do y Sir - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi twf y sector busnes bwyd a diod yn lleol ac yn rhanbarthol drwy farchnata a phrosiectau cydweithio - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi adferiad y sectorau twristiaeth a lletygarwch ac ailddatblygu hyder yn y diwydiant - erbyn mis Mawrth 2023
- Cynyddu graddfa ac effaith y sector busnes cymdeithasol - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi busnesau lleol yn eu hymdrechion i ostwng eu hól-troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon - erbyn mis Mawrth 2023

Yn gysylltiedig â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Barhau i ddatblygu'r economi leol a rhanbarthol
- Gweithio ar y cyd i gyflawni blaenoriaethau allweddol ar gyfer prosiectau isadeiledd mawr a fydd yn cefnogi prosiectau twf economaidd
- Nid yw'r gefnogaeth ar gyfer busnesau yn Sir y Fflint yn cyfateb â'r galw ac mae'n methu denu buddsoddiad

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru
- Cynllun Adfer Llywodraeth Cymru

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru** - Dull gweithredu rhanbarthol i ddatblygiad economaidd ledled Cymru
- **Cynllun Adfer Llywodraeth Cymru** - Cynllun i adfer o'r difrod economaidd yn sgil pandemig y coronafeirws a darparu cadernid economaidd

Thema: Yr Economi



Blaenoriaeth Cysylltedd Trafnidiaeth

Diffiniad

Datblygu a hyrwyddo cysylltiad cludiant effeithiol wrth gefnogi adfer a thwf economaidd

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddatblygu a chyflawni gwelliannau i'r isadeiledd cludiant fel rhan o raglen Metro Gogledd Cymru a Strategaeth Trafnidiaeth Integredig y Cyngor - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**
- Sicrhau bod blaenoriaethau cludiant strategol Sir y Fflint yn cael eu cynrychioli'n dda yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sydd i ddod - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Integreiddio bob ffordd o gludiant yn llwyddiannus a datblygu galw unigol bob un wrth gynnal a hyrwyddo gwasanaeth cludiant cyhoeddus ecogyfeillgar, cynaliadwy a fforddiadwy gyda chysylltiadau gyda Sir y Fflint a'r rhanbarth ehangach
- Darparu cysylltiadau gwerthfawr i wasanaethau cludiant i breswylwyr yn ardaloedd gwledig y Sir fel rhan o Rwydwaith Graidd Sir y Fflint lle nad oes gwasanaethau masnachol ar gael ar hyn o bryd, ac felly hwyluso mynediad i gyfleusterau iechyd, addysg a chyflogaeth
- Hyrwyddo cludiant aml fodd a gostwng dibynadwyaeth ar gerbydau modur
- Cynnwys datrysiadau cludiant lleol yn y cais Twf Economaidd rhanbarthol

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Strategaeth Trafnidiaeth Integredig Sir y Fflint** - Anelu i ddarparu datrysiadau cludiant cynaliadwy hirdymor drwy integreiddio bob modd o gludiant yn llwyddiannus sy'n gysylltiedig â Sir y Fflint a'r rhanbarth ehangach
- **Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth** - Sefydliad rhanbarthol a fyddai'n trefnu ac yn rheoli gwasanaethau cludiant cyhoeddus lleol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Ffurio Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth
- Adolygu Gwasanaeth Bysiau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru
- Cyflwyno opsiynau teithio cynaliadwy ac integredig

Thema: Yr Economi

Blaenoriaeth Isadeiledd digidol

Diffiniad

Sicrhau bod rhwydweithiau digidol yn hwyluso ac yn cefnogi adfer a thwf

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddechrau cyflawni'r cynlluniau lleol o fewn Bargen Dwf Gogledd Cymru ar gyfer isadeiledd digidol - erbyn mis Mawrth 2023
- Cysylltu cymunedau gwledig ychwanegol i well isadeiledd digidol - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod anghenion preswylwyr a busnesau Sir y Fflint wedi'u hintegreiddio'n llwyr i becynnau buddsoddi'r dyfodol
- Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a darparwyr telathrebu i sicrhau bod anghenion cymunedau gwledig yn cael eu hystyried

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cysylltedd Digidol** - Isadeiledd telathrebu llinell ffôn sefydlog a symudol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Nid yw cysylltedd digidol wedi cael ei ddatganoli felly Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y mater er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n ychwanegol. Mae Gogledd Cymru ym mhell tu ôl i weddill y DU o ran cysylltedd. Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd isadeiledd cysylltedd da ac mae Gogledd Cymru yn gobeithio cyrraedd a rhagori ar y meincnod cenedlaethol a sicrhau bod safleoedd busnes strategol yn mwynhau mynediad at dechnoleg sydd ar flaen y gad

Thema: Yr Economi



Blaenoriaeth

Targedau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Diffiniad

Cyflawni amcanion polisi CDLI ar gyfer twf, diogelu a gwelliant

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Sicrhau bod y CDLI yn cael ei fabwysiadu'n brydlon unwaith bydd Adroddiad yr Arolygwr wedi cyrraedd - erbyn mis Rhagfyr 2022
- Monitro perfformiad y Cynllun yn gyffredinol drwy'r Adroddiad Monitro Blyneddol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru - erbyn mis Mawrth 2023
- Cynnal a diweddarau Taflywyr Tai CDLI yn unol â phenderfyniadau cynllunio - erbyn mis Mawrth 2023
- Gwneud penderfyniadau yn y Pwyllgor Cynllunio yn unol â'r CDLI a fabwysiadwyd - erbyn mis Mawrth 2023
- Cyfeirio at strategaeth dwf y CDLI yn fuan yn y gwaith o lunio Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Fabwysiadu cynllun datblygu cadarn sy'n cynnwys fframwaith o bolisiau a chynigion sy'n ceisio rheoleiddio a rheoli datblygu a defnydd tir a darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a chlrir ar geisiadau cynllunio unigol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- **Cynllun Datblygu Lleol** - Archwiliadau a phrofi cadernid

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynllun Datblygu Lleol** - Cynllun a fydd yn canolbwyntio ar gyflawni datblygiadau cynaliadwy yn y Sir am gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2015 a 2030, ac a fydd yn cynnwys:
 - polisiau a fydd yn arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio
 - arwain datblygiad ar gyfer tai, cyflogaeth, manwerthu a defnyddiau eraill
 - polisiau a fydd yn ceisio diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig

Thema: Yr Economi



Blaenoriaeth

Gwario arian er budd Sir y Fflint

Diffiniad

Tyfu ein bywiogrwydd economaidd lleol drwy strategaeth gaffael ac ymrwymadau gwerth cymdeithasol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Barhau i gyflawni deilliannau gwerth cymdeithasol drwy weithgareddau caffael y Cyngor - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi partneriaid y gadwyn gyflenwi i fesur a throsi eu gwerth cymdeithasol drwy ymrwymadau caffael, i fanteision gwirioneddol a phendant i breswylwyr a chymunedau lleol - erbyn mis Mawrth 2023
- Adolygu'r Strategaeth Gwerth Cymdeithasol i nodi cyfleoedd pellach i fanteisio i'r eithaf ar werth cymdeithasol ar draws y Cyngor, drwy ei wasanaethau a'i wariant - erbyn mis Mawrth 2023
- Cynhyrchu gwariant lleol i gefnogi twf economaidd drwy gynnwys mesurau gwerth cymdeithasol mewn gweithgarwch caffael - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r manteision i breswylwyr Sir y Fflint drwy'r broses dan gontract gyda'r rheiny sy'n cyflenwi nwyddau, gwaith a gwasanaethau i'r Cyngor
- Cefnogi a chynghori busnesau lleol i gynyddu eu dealltwriaeth o'r broses gaffael mewn perthynas â'r angen am werth cymdeithasol, a chynyddu eu gallu i fod yn rhan o'r broses dendro

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Gwerth Cymdeithasol** - Term a ddefnyddir i ddisgrifio effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar ein proses o wneud penderfyniadau a gweithredu busnes yw gwerth cymdeithasol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf yr Iaith Gymraeg
- Deddf Cydraddoldeb
- Bil Partneriaethau Cymdeithasol

Thema: Yr Economi



Blaenoriaeth Lleihau Diweithdra

Diffiniad

Gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi unigolion i gael gwaith

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gydyntu dull amlasiantaeth i gefnogi busnesau i recriwtio pobl o grwpiau sydd dan anfantais - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Thlodi**
- Cyflawni rhaglenni mentora a chefnogaeth ehangach i gynorthwyo pobl dan anfantais i fod yn rhan o'r farchnad waith eto - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Thlodi**

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddarparu cefnogaeth i gael gwaith a hyfforddiant

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cymru'n Gweithio

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Grwpiau Dan Anfantais** - Y rheiny, am resymau amrywiol, sy'n wynebu heriau wrth gael gwaith neu gyfleoedd hyfforddiant



Thema: Lles Personol a Chymunedol

Amcan Lles: Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent

Blaenoriaeth Byw'n Annibynnol

Diffiniad

Bydd pobl yn cael eu cefnogi i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib drwy gynnig y math priodol o gymorth iddyn nhw, pan fyddan nhw ei angen

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddatblygu cynllun i ddarparu lleoliadau ychwanegol ar gyfer ein gofal ddilydol yn ein darpariaeth fewnol - erbyn mis Mawrth 2023
- Parhau i dyfu'r farchnad Meicro-ofal, gan ddefnyddio un swydd Swyddog Datblygu - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu Strategaeth Blynnyddoedd Cynnar i sicrhau bod ein plant, 0-7 oed yn cael y dechreuad gorau posib mewn bywyd ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial - erbyn mis Mawrth 2023
- Cynllunio ar gyfer adleoli'r prosiect cefnogi cyflogaeth - Tri Ffordd i safle canolog yn yr Wyddgrug - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi pobl i gyflawni eu deilliannau lles meddyliol drwy hyrwyddo lles personol a chymunedol drwy gyrsiau mynediad agored sy'n cael eu darparu gan y Bartneriaeth Ddysgu - erbyn mis Mawrth 2023
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu llwybrau eglur i unigolion sydd angen defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl
 - Sefydlu llwybrau eglur - erbyn 31 Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod gan bobl ddewis a rheolaeth dros y ffordd maen nhw'n cael eu cefnogaeth

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i hyrwyddo lles a grymuso pobl i lywio eu datrysiadau eu hunain
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn atal problemau cyson fel anghydraddoldeb iechyd, tlodi a newid hinsawdd.

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Braenaru Blynnyddoedd Cynnar** - Gwasanaethau Blynnyddoedd Cynnar di-fwlch ac ymatebol i sicrhau bod bob plentyn yn cael y dechreuad gorau mewn bywyd. Dylai plant fod wrth wraidd gwasanaethau integredig, gwych, sy'n rhoi eu hanghenion gyntaf, waeth beth yw'r strwythurau proffesiynol a threfniadol traddodiadol
- **Micro Care** - Darparwyr gofal gyda nifer fechan o staff yn cynnig gwasanaeth personol, lleol

Thema: Lles Personol a Chymunedol



Blaenoriaeth

Diogelu

Diffiniad

Gweithredu a hyrwyddo'r gweithdrefnau diogelu newydd, er mwyn i'n gweithwyr ddeall sut y gallan nhw helpu diogelu pobl yn y gymuned

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Barhau i hyrwyddo'r pecyn e-ddysgu corfforaethol - erbyn mis Mawrth 2023
- Paratoi ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Hyrwyddo dealltwriaeth ar draws y Cyngor bod gan bawb gyfrifoldeb dros ddiogelu

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar bob gweithiwr awdurdod lleol, aelodau etholedig a phartneriaid perthnasol i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau o gam-drin neu niwed gwirioneddol neu amheuan ohonynt

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cynnig Gweithredol** - Y gofyniad i ddarparu gwybodaeth ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol
- **Dyletswydd i Adrodd** - Os oes gan bartner achos i amau bod unigolyn mewn perygl, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol o'r ffaith honno. Nid oes rhaid iddynt weld y gamdriniaeth neu'r esgeulustod yn digwydd i roi gwybod am achos. Y nod yw diogelu pobl sydd ei angen a'u helpu i atal camdriniaeth neu esgeuluso

Thema: Lles Personol a Chymunedol



Blaenoriaeth

Darpariaeth Uniongyrchol i helpu pobl yn agosach i'w cartrefi

Diffiniad

Y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu er mwyn i bobl gael gafael ar y cymorth y maen nhw ei angen yn eu cymuned leol

Caiff cyflawniad ei fesur drwy:

- Sefydlu Cartref Plant er mwyn osgoi'r angen i leoli plant tu allan i Sir y Fflint - erbyn mis Mawrth 2023
- Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth gofal cartref mewnol i gefnogi mwy o bobl i fyw yn eu cartrefi - erbyn mis Mawrth 2023
- Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth maethu i gefnogi mwy o blant sy'n derbyn gofal - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu cam gweithredu ar gyfer datblygu'r flaenoriaeth eiriolaeth - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gynyddu ein darpariaeth lleol i sicrhau bod unigolion yn gallu defnyddio gwasanaethau'n agos at eu cartrefi

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i roi anghenion yr unigolyn wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais iddyn nhw, a rheoli canlyniadau a fydd yn eu helpu i gyflawni lles

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Gofal Cartref** - gwasanaethau gofal yn cael eu darparu i unigolyn yn eu cartref
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** - Mae'r ddeddf yn cydnabod y dylai deilliannau unigolyn fod wrth wraidd y gofal y maen nhw ei angen a bod gwasanaethau'n cael eu datblygu i gefnogi'r deilliannau hynny

Thema: Lles Personol a Chymunedol



Blaenoriaeth Strategaeth Dementia Lleol

Diffiniad

Parhau i wella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia yn Sir y Fflint

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Sefydlu Grŵp Gweithredu Strategaeth Dementia, i gynnwys cynrychiolaeth gan bobl sydd â phrofiad o'r mater - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia i Gymru 2018 - 2022

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Strategaeth Dementia Sir y Fflint** - Cynllun i gyflawni polisi cenedlaethol yn lleol i gefnogi pobl sy'n byw â dementia

Thema: Lles Personol a Chymunedol



Blaenoriaeth

Amgylchedd lleol glân, diogel gyda chysylltiadau da

Diffiniad

Cymunedau Cryf lle bo pobl yn teimlo'n ddiogel ac mewn cysylltiad

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddiogelu preswylwyr a'n hamgylchedd rhag llygredd a pheryglon iechyd a diogelwch y cyhoedd eraill drwy gyflawni'r Safon Gwasanaethau Stryd - erbyn mis Mawrth 2023
- Gweithio mewn partneriaeth, cefnogi ac ymgysylltu'n weithredol gyda grwpiau cymunedol drwy ddatblygu mentrau Ansawdd Amgylcheddol Lleol - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Chymdeithas Werdd a'r Amgylchedd**
- Gweithio gyda dwy gymuned leol i hysbysu cynllun gweithredu a

- gweledigaeth hirdymor i ddefnyddio'r rhaglen Arian Grant Hyblyg i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl - erbyn mis Mawrth 2023
- Cyfrannu at flaenoriaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy weithio mewn partneriaeth gydag Aura drwy:
 - Wella lles meddyliol a chadernid - erbyn mis Mawrth 2023
 - Hyrwyddo ymddygiad iach - erbyn mis Mawrth 2023
 - Diogelu dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gynnal rhwydwaith priffyrdd ddiogel a hygrych
- Darparu darpariaeth parcio o ansawdd ar gyfer canol trefi a sicrhau argaeledd drwy ddarparu rhai aros byr / aros hir priodol
- Diogelu'r amgylchedd rhag gweithgareddau gwaredu gwastraff anghyfreithlon

- Cynnal safon gwasanaeth yn y Portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant
- Diogelu Iechyd y Cyhoedd i breswylwyr yn Sir y Fflint

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Rhaglen Ariannu Hyblyg Cymru
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn atal problemau cyson fel anghydraddoldeb iechyd, tlodi a newid hinsawdd.

- Newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ymgymryd â mwy o weithgareddau gorfodi
- Pwysau ariannol a chefnogaeth grant Llywodraeth Cymru
- Darparu strategaeth genedlaethol a gwelliannau i Ansawdd Amgylcheddol Lleol

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Gwasanaeth Gorfodi** - Darparu tîm gorfodi integredig i ymdrin â throseddau parcio ac amgylcheddol fel tipio anghyfreithlon, taflu ysbwriel a chŵn yn baeddu
- **Rhaglen Ariannu Hyblyg** - Y dull a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu ffordd fwy strategol o ymyrryd yn gynnar, atal a gwasanaethau cefnogi
- **Ansawdd Amgylcheddol Lleol** - Agweddau fel sbwriel, graffiti, cerbydau wedi eu gadael a gosod posteri'n anghyfreithlon. Mae'r rhain yn effeithio ar ansawdd bywyd ac os caiff eu gadael heb eu rheoli, gallant arwain at droseddau mwy difrifol
- **Darpariaeth Parcio** - Mannau parcio ceir hygyrch ac ar gael
- **Safonau Gwaith Stryd** - Cyfres o Safonau sy'n nodi'r isafswm o ran safonau perfformiad
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** - Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau sy'n cefnogi cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, yn enwedig mynd i'r afael â materion mewn perthynas â thlodi, anghydraddoldebau iechyd a menter i atal newid hinsawdd



Thema: Addysg a Sgiliau

Amcan Lles: Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu

Blaenoriaeth Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol

Diffiniad

Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol i gefnogi cyflawniad addysgol mewn ysgolion a chymunedau

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gynnal cefnogaeth ar gyfer treiglo'r cwricwlwm diwygiedig i ddisgyblion rhwng 3 ac 16 oed sy'n eu paratoi'n well ar gyfer eu bywyd a'u cyflogaeth yn y dyfodol
- Gweithwyr ysgolion yn parhau i gael mynediad at gynrig dysgu proffesiynol GwE a chymryd rhan mewn gweithio fesul clwstwr - erbyn mis Mawrth 2023
- Ymgorffori'r prosesau a'r gweithdrefnau diwygiedig mewn perthynas â phresenoldeb a gwahardd, gan ddefnyddio data i hysbysu a thargeddu ymyriadau gyda disgyblion ac ysgolion
- Gweithio gydag ysgolion i gefnogi datblygiad a gweithrediad pecynnau addysgol hyblyg a phwrpasol i wella presenoldeb ac ymgysylltu - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod pobl ifanc yn cyflawni eu potensial
- Cynyddu cadernid plant a phobl ifanc mewn ysgolion a'u cymunedau i aros yn ddiogel ac yn iach
- Cefnogi dysgwyr rhwng 3 a 18 oed i anelu at lefelau uchel o gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol
- Bodloni dyletswyddau statudol dan newid polisi addysg cenedlaethol i gwricwlwm cenedlaethol diwygiedig
- Cefnogi dysgwyr sy'n rhan o'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn risg o fynd iddo i gael addysg a chynyddu presenoldeb er mwyn cyflawni eu potensial

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Diwygio Cwricwlwm

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cyfleoedd Addysgol Amgen** - Addysg yn cael ei darparu gan amrywiaeth o ddarparwyr allanol, ar wahân i'r ysgol, e.e. cyrsiau galwedigaethol drwy golegau Addysg Bellach Lleol
- **Diwygio'r Cwricwlwm** - Cwricwlwm newydd i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir (fel lleoliadau gofal dydd fel grwpiau chwarae a Chylchoedd Meithrin neu feithrinfeydd dydd cofrestredig i ddarparu addysg) yng Nghymru o fis Medi 2022 ymlaen
- **Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Lleol** - fel sydd ei angen yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Thema: Addysg a Sgiliau



Blaenoriaeth Cyfleoedd Dysgu Digidol

Diffiniad

Cefnogi ymgysylltiad a chyflawniad addysgol drwy wneud defnydd rhagweithiol o gyfryngau digidol hygyrch

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Gefnogi ysgolion a gwasanaethau addysg ehangach i gynyddu eu cynnig digidol ar gyfer plant a phobl ifanc - erbyn mis Mawrth 2023
- Uwchsgilio gweithwyr yn y Portffolio Addysg ac Ieuenctid drwy roi mynediad i gynnig dysgu proffesiynol GwE a chyfleoedd hyfforddiant priodol eraill
- Ymgorffori'r cynllun datblygu ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Integredig drwy gynnal canolbwynt ar fwy o ymgysylltu digidol - erbyn mis Mawrth 2023
- Parhau i gynyddu'r amrywiaeth o ddeunydd digidol sy'n cael eu cynnal ar wefan Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru a gwasanaethau digidol eraill i annog gwell cyfranogiad - erbyn mis Mawrth 2023
- Parhau i fonitro darpariaeth ysgolion i ddysgwyr sydd dan anfantais yn ddigidol - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi ysgolion i fanteisio i'r eithaf ar galedwedd sydd ar gael drwy'r rhaglen Hwb cenedlaethol a sicrhau bod cynlluniau nawdd cynaliadwy mewn grym - erbyn mis Mawrth 2023
- Cynyddu'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer cyfleoedd dysgu digidol a gefnogir gan Aura - erbyn mis Mawrth 2023 **Yn gysylltiedig â Thlodi**
- Darparu hyfforddiant cymunedol ar gyfer llwyfannau dysgu ar-lein mewn partneriaeth ag Aura a Dysgu Oedolion yn y Gymuned - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Gefnogi ysgolion a dysgwyr i ymgorffori'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn 2022
- Ymgorffori gofynion Fframwaith Ddigidol 2030 yn narpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ledled y sir

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Strategaeth Ddigidol i Gymru
- Cwricwlwm Cymru 2022
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ysgolion
- Fframwaith Digidol 2030 ar gyfer dysgu ôl-16

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol** - Mae'r fframwaith yn nodi sut bydd cymhwysedd digidol yn cael ei integreiddio ar draws y cwricwlwm, gan roi'r un pwyslais ar ddigidol ag ar lythrennedd a rhifedd
- **Fframwaith Ddigidol 2030** - Mae'r fframwaith yn nodi'r gefnogaeth ddigidol sydd ei hangen ar y daith dysgwr cyfan, gan gydnabod bod angen i'r elfennau a ganlyn fod mewn grym ar gyfer darpariaeth ddigidol effeithiol - arweinyddiaeth, prosesau busnes, diogelwch ac angen isadeiledd

Thema: Addysg a Sgiliau



Blaenoriaeth Yr Amgylchedd Dysgu

Diffiniad

Creu amgylcheddau dysgu uchelgeisiol a hyblyg

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Ddechrau adeiladu'r campws 3-16 oed arfaethedig ym Mynydd Isa - erbyn mis Mawrth 2023
- Ymgynghori ar gynyddu capasiti ysgolion cynradd Drury a Phenyffordd drwy'r Cod Trefniadaeth Ysgolion - erbyn mis Mawrth 2023
- Comisiynu contractwr a dechrau'r broses ddylunio a datblygu ar gyfer ysgolion cynradd Drury a Phenyffordd - erbyn mis Mawrth 2023
- Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i ddatblygu Rhaglen Fuddsoddi yn Ysgolion Band B yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu cynllun eiddo newydd ar gyfer Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Barhau i ddarparu strategaeth hirdymor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladau ysgolion ac wrth ddarparu dysgwyr diamddiffyn i wella ansawdd adeiladau ysgolion wrth hyrwyddo cynaliadwyedd a gostwng y gwaith cynnal a chadw sydd yn aros i gael ei wneud
- Darparu Gwasanaeth Archifau cost effeithiol a chadarn

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Nawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain ganrif

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Ysgolion yr 21ain ganrif** - Mae'r rhaglen yn fwy na rhaglen adeiladu'n unig. Mae'n fuddsoddiad strategol hirdymor yn ein stad addysgol ledled Cymru. Mae'n gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau.

Thema: Addysg a Sgiliau



Blaenoriaeth

Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu

Diffiniad

Cefnogi ein cymunedau sy'n dysgu i ymgysylltu a chyflawni drwy weithio mewn partneriaeth eang yn cael eu hategu gan arferion diogelwch cyffredin

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Barhau i atgyfnerthu'r cydweithio rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych drwy Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru i ddarparu gwasanaeth cadarn a chynaliadwy - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu Cynllun Cyflenwi ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gynyddu ymgysylltu a gwella sgiliau yn y cymunedau lleol - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu strategaeth Cefnogi Dysgwyr i gynyddu lefelau ymgysylltu a darparu llwybrau datblygu priodol er mwyn ennyn ymgysylltu pellach, astudiaeth neu gyflogaeth - erbyn mis Mawrth 2023
- Ymestyn y cynnig dysgu oedolion i adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn darparu'r sgiliau sydd eu hangen drwy gynllunio partneriaeth - erbyn mis Mawrth 2023
- Gweithio gyda Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Phartneriaid Rhwydweithio Lles ac Adfer Dysgu Sir y Fflint i rannu arfer gorau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu yn y gymuned a sicrhau bod cyfleoedd ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd Aura - erbyn mis Mawrth 2023
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Brifysgol Agored i gefnogi a chyfeirio defnyddwyr llyfrgell i gyrsiau Dysgu Agored a llwybrau dysgu dilynol gyda Chefnogwyr Dysgu Agored ym mhob llyfrgell - erbyn mis Mawrth 2023
- Gweithio mewn partneriaeth gydag Aura i ddarparu Darpariaeth Amgen i bobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol i'w helpu i gael cymwysterau ystyrlon - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Sicrhau bod arian cynyddol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cyrsiau sy'n helpu oedolion sy'n dysgu i ddatblygu sgiliau a gwella eu hiechyd a'u lles
- Ymgorffori'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion newydd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru
- Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tloedi a'i rhaglen lles a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), yn enwedig cyfarfod anghenion dysgwyr hŷn

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Dysgu Oedolion** - Darpariaeth sy'n cael ei chyflawni gan awdurdodau lleol a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dysgu oedolion dros 19 oed yng Nghymru yn y gymuned

Thema: Addysg a Sgiliau



Blaenoriaeth

Darpariaeth Addysgol Arbenigol

Diffiniad

Ymestyn gallu lleol i gefnogi dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Weithredu Blwyddyn 2 o'r cynllun trawsnewid ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a chanllawiau cysylltiedig - erbyn mis Mawrth 2023
- Diffinio pellach ac ymgorffori dewislen o gefnogaeth allgymorth a hyfforddiant i'w gynnis i ysgolion drwy Unedau Cyfeirio Disgyblion Plas Derwen - erbyn mis Mawrth 2023
- Datblygu cais strategol ar gyfer y cam nesaf o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cynyddu lefel y ddarpariaeth fewnol ac yn ceisio gostwng dibyniaeth ar ddarpariaeth tu hwnt i'r sir - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Ddatblygu ein darpariaeth arbenigol i fodloni anghenion dysgwyr mor effeithiol ac effeithlon â phosib
- Bodloni dyletswyddau statudol dan ddeddfwriaeth cenedlaethol i gefnogi plant / pobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Uned Cyfeirio Disgyblion** - Darpariaeth addysgol amgen sy'n cael ei threfnu'n benodol ar gyfer darparu addysg i blant sy'n methu mynychu'r ysgol ac na fyddai, fel arall, yn cael addysg addas.

Thema: Addysg a Sgiliau



Blaenoriaeth

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA)

Diffiniad

Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Parhau i gynyddu capasiti mewn addysg cyfrwng Cymraeg a nifer y plant sy'n derbyn lleoedd ynddynt i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru - erbyn mis Mawrth 2023
- Parhau i wella sgiliau Cymraeg gweithwyr mewn ysgolion i gefnogi dysgwyr yn fwy effeithiol a darparu'r cwricwlwm - erbyn mis Mawrth 2023
- Darparu cefnogaeth wedi'i thargedu ac ymyrraeth i ysgolion i godi safonau a hyrwyddo dwyieithrwydd - erbyn mis Mawrth 2023
- Ymestyn yr amrywiaeth o wasanaethau ieuencid sy'n cael eu darparu'n ddwyieithog i annog pobl ifanc i gadw a defnyddio'u sgiliau Cymraeg pan fyddant yn oedolion ifanc - erbyn mis Mawrth 2023
- Ymgorffori swyddogaeth cydlynedd y Gymraeg y Gwasanaeth Ieuencid Integredig - erbyn mis Mawrth 2023
- Sicrhau bod darpariaeth ieuencid a chwarae wyneb yn wyneb a digidol yn cynnig mwyfwy o ddwyieithrwydd sy'n cefnogi ymestyn rhaglen drochi'r Gymraeg y Cyngor - erbyn mis Mawrth 2023

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Weithio gyda rheoliadau newydd CSCA (2019)
- Datblygu a chychwyn ar y gwaith o weithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) nesaf a fydd yn cael ei gyflawni dros y 10 mlynedd nesaf (2022-2032)

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Cymraeg 2050: ein strategaeth i gael Miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Darpariaethau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn yr ysgol
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a rheoliadaus yn deillio ohoni

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Cymraeg 2050** - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg - yn canolbwyntio ar gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffaithiol - isadeiledd a chyd-destun
- **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** - Sut rydym ni fel awdurdod lleol yn bwriadu cyflawni ein swyddogaethau addysgol drwy:
 - i. Gwellu cynllunio ar gyfer darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (addysg Gymraeg) yn Sir y Fflint
 - ii. Gwellu safonau addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu Cymraeg yn ardal Sir y Fflint.

Thema: Addysg a Sgiliau

Blaenoriaeth Lles

Diffiniad

Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i ddarparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'r gweithlu addysg i ymgysylltu mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu hiechyd a lles emosiynol

Caiff llwyddiant ei fesur drwy:

- Dreiglo'r Fframwaith Genedlaethol ar gyfer Ymgorffori Dull Gweithredu Ysgol Gyfan i Iechyd a Lles Emosiynol ym mhob ysgol yn Sir y Fflint - erbyn mis Mawrth 2023
- Cefnogi bob ysgol uwchradd i gwblhau'r Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn 2022
 - Datblygu cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar y canfyddiadau, yn enwedig mewn perthynas ag Iechyd a Lles Emosiynol - erbyn mis Mawrth 2023
- Bodloni gofynion dan Gronfa Ddatblygu Dull Gweithredu Ysgol Gyfan i Les i gael hyfforddiant i weithwyr ac ymgysylltu gyda disgyblion - erbyn mis Mawrth 2023
- Cydgrynhoi Prosiect Ysbyty Gwaith Ieuenctid Ysbrydoli sy'n darparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn risg o ymddygiad hunan-niweidio
- Gwella ymwybyddiaeth o arferion sy'n deillio o drawma mewn ysgolion a chyda gweithwyr Addysg ac Ieuenctid

Mae'r rhain yn flaenoriaethau eleni gan fod angen i ni:

- Mae cefnogaeth ar gyfer echedd a lles emosiynol yn ein hysgolion yn flaenoriaeth genedlaethol

Materion Polisi Cenedlaethol:

- Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol

Beth yw ystyr y canlynol:

- **Prosiect Ysbyty Gwaith Ieuenctid Ysbrydoli** - Cynnig cefnogaeth cyfannol i bobl ifanc 11-18 oed sy'n hunan-niweidio gyda'r nod o ostwng cyfraddau ailymweliad â'r ysbyty oherwydd hunan-niweidio
- **Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion** - Rhwydwaith o ysgolion uwchradd yng Nghymru sydd wedi uno â'i gilydd gydag ymchwilwyr Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i gefnogi iechyd pobl ifanc. Nod y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yw gwella iechyd a lles. Mae'r rhwydwaith yn helpu ysgolion yng Nghymru i weithio gydag ymchwilwyr i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd da am wella iechyd
- **Cronfa Ddatblygu Dull Ysgol Gyfan** - Fframwaith cenedlaethol ac adnoddau cefnogol i ysgolion ymgorffori eu dulliau ysgol gyfan mewn perthynas â lles. Bydd y fframwaith yn cefnogi ysgolion i adolygu eu prosesau lles eu hunain a datblygu cynlluniau i ymdrin â'u gwendidau a datblygu eu cryfderau. Mae'n nodi swyddogaeth Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Consortia, y GIG ac eraill, fel sefydliadau trydydd sector sy'n cefnogi ysgolion



Datganiad o Gyfrifoldeb

Mae gwybodaeth am y gwaith adolygu parhaus ynghylch blaenoriaethau'r Cyngor a'r cynllun hwn ar gael ar ein gwefan lle ceir ffurflenni adborth ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ein partneriaid, ein gweithlu a busnesau. Hoffem gael eich barn am ein blaenoriaethau a'r rheini ar gyfer y dyfodol. Byddem yn gwerthfawrogi eich adborth ac rydym yn gobeithio y byddwch yn cymryd yr amser i roi eich barn.

Yn y cyfamser...os oes gennych unrhyw sylwadau cychwynnol, cysylltwch â'r:

Tim Perfformiad a Rheoli Risg:

E-bost: PRM@flintshire.gov.uk